# COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM 23.11.22

.

PRESENNOL – Carwyn Edwards (Cadeirydd) ,Gwyn Davies, Awel Hughes, Sioned Jones, Glennydd Evans, Gwynfryn Jones. Cyng. Gwennol Ellis, Rhian Ellis (Clerc)

1. YMDDIHEURIADAU – Llyr Jones, Alun Jones

2. DATGAN BUDDIANNAU – Dim

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF – Cynigwyd yn gywir Glennydd ac eilwyd gan Gwyn

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION –

> Dywedodd y Clerc ei bod methu cael gafael ar Mathew Tai Ucha I ddod I dorri coed yn y fynwent, penderfynwyd gofyn I Gwilym Prys Llanuwchllyn am bris.
>
> Nodwyd ein bod wedi cael pris o £650 yr un I beintio pob safle bws, sef Llangwm, Ty Nant a Dinmael R D Ellis Cefn Brith. Penderfynwyd gofyn iddo beintio safle bws Ty Nant a Dinmael eleni a Llangwm flwyddyn nesa'
>
> Aros I Ian ddod yn ol gyda pris I adnewyddu y wal.

5. CYLLIDEB - Yn y Banc 29.11.22 £19,387.74

> Gwariant hyd yma Nant Fach - £2564.95
>
> Trafodwyd y precept a penderfynwyd codi 5% am eleni gan fod costau pob dim wedi codi.

6. TALIADAU - Cynigwyd talu yr isod gan Glennydd ac eilwyd gan Gwyn a phawb yn gytun.

| | | |
|---|---|---|
| 1. Cyngor Conwy | s36 | £135.00 |
| 2. ICO Data Protection | s132 | £40.00 |

7. NEUADD FACH - .Nodwyd bod angen symud y 'Filling Cabinet' or neuadd fach I'r Gorlan Ddiwylliant

8.CAEAU CHWARAE - Dywedodd y Clerc bod y grant oedd ar gael I gael meinciau a byrddau picnic wedi darfod am rwan ond I'r clerc fynd amdanno os y bydd yn agor eto.

Dinmael -Dim diweddariad

Llangwm – Dywedodd y Clerc iddi gael galwad ffon gan y Cyngor yn dweud eu bod yn mynd I dorri y goeden I lawr.

Cafwyd ar ddeallt na fydd dim yn digwydd I adnewyddu y parciau yn y ddau bentref ar hyn o bryd. Penderfynwyd gofyn I Eirian Pierce Jones o'r Loteri Genedlaethol I ddod I'r cyfarfod nesa' I weld pa wybodaeth y medrwn ei gael ganddi ynglyn a Grant Loteri.

‘Roedd y Cyng.Gwennol Ellis yn y cyfarfod ond ni chymerodd rhan yn y drafodaeth.

9.  CYNLLUNIO  – Estyniad I Bwthyn Maesmor – Dim sylw

Yr Hen Felin, Llangwm – Dim Sylw.

10. GOHEBIAETH –

Llythyr gan Yr Urdd Sir a Chenedlaethol yn gofyn am arian – Penderfynwyd peidio cyfrannu y tro yma a chefnogi yr Urdd yn lleol os bydd angen.

Llythyr gan Helen Goddard, Conwy yn gofyn am gyfraniad tuag at y Llyfrgell yn Cerrigydrudion. Y Pwyllgor isho mwy o wybodaeth e.e. be fuasai’r swm mae nhw isho.

11. UNRHYW FATER ARALL –

1. Coeden Nadolig -.Richard Griffiths Garthmeilio yn rhoi coeden eto eleni.

2. Cwt Hers – Wedi cael pris gan Dafydd Roberts I gael drws newydd I’r cwt hers o £2000.00. Angen cael prisiau gan Gethin Pyrs a mab Tyddyn Du Nebo.

3. Sgips yn Llangwm ar y 21 Ionawr ac yn Dinmael y dydd Sadwrn 28ain.

Anfon Llythyr o ddiolch I Steven Jones am wneud yr Awdit mewnol I’r Cyngor Cymuned.

4. Bydd y tyfiant wrth Bont y Glyn yn cael ei dorri yn ystod y 18 mis nesa’ a mi fydd y ffordd ynghau bob hyn a hyn.

5. Cydymdeimlwyd gyda theulu Pen y Bryn Dinmael yn eu profedigaeth o golli Mr Islwyn Evans a fu yn Cynghorydd gweithgar iawn yn y gymued.

DYDDIAD CYFARFOD NESA.

IONAWR 25ain 2023